



AQA

CCEA

OCR

Pearson

CBAC

Nodiadau canllaw – trosglwyddo ymgeiswyr ar gyfer blwyddyn academiaidd 2024/25

Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol fel y nodir isod y bydd ceisiadau ar-lein ar gyfer trefniadau trosglwyddo ymgeisydd yn cael eu derbyn.

Dim ond os cynhelir diogelwch a hygredded yr arholiadau drwy'r amser y bydd corff dyfarnu yn cymeradwyo cais ar-lein am drefniant trosglwyddo ymgeisydd.

Mae'n **rhaid** i'r ganolfan letyol wneud y canlynol:

- glynu at gyhoeddiad y CGC *Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau cyn, yn ystod ac ar ôl yr arholiad(au)*;
- cydymffurfio â'r rheoliadau sy'n llywodraethu'r dulliau o storio papurau cwestiynau a deunyddiau cyfrinachol eraill yn ddiogel.

Darllenwch y nodiadau canlynol **cyn** llenwi cais ar-lein.

1. Cyflwyniad

- Dylid gwirio rheoliadau'r corff dyfarnu am unrhyw gyfyngiadau ar drefniadau trosglwyddo ymgeisydd a allai fod yn berthnasol i ymgeiswyr preifat.
- Dylai swyddogion arholiadau ofyn am gyngor gan y corff dyfarnu priodol os ydynt yn ansicr ynghylch pa mor dderbyniol yw'r trefniant trosglwyddo ymgeisydd.

2. Rhesymau dros geisiadau

Dyma resymau derbyniol dros wneud cais am drefniadau trosglwyddo ymgeisydd:

✓	Diagnosis o gyflwr meddygol sy'n atal yr ymgeisydd rhag sefyll yr arholiad(au) yn y ganolfan gofrestru. Rhaid nodi rheswm penodol wrth brosesu cais ar-lein.
✓	Beichiogrwydd.
✓	Mae ymgeisydd wedi symud tŷ ar ôl i gofrestriadau gael eu gwneud.
✓	Mae ymgeisydd wedi cael ei wahardd neu ei atal dros dro o'r ganolfan gofrestru.
✓	Mae ymgeisydd yn y lluoedd arfog ac mae wedi cael ei drosglwyddo i safle arall.
✓	Mae ymgeisydd yn cynrychioli ei glwb neu wlad ar lefel ryngwladol mewn digwyddiad chwaraeon cydnabyddedig. (Mae'n rhaid i ganolfannau ddarparu tystiolaeth ategol briodol, h.y. llythyr swyddogol gan drefnwyr y digwyddiad chwaraeon, wedi'i lofnodi a'i ddyddio ar bapur pennawd, sy'n cyfeirio'n benodol at yr ymgeisydd. Mae corff dyfarnu yn cadw'r hawl i ofyn am dystiolaeth o'r fath.)
✓	Mae ymgeisydd yn cael ei gadw yn y ddalfa neu ei ddedfrydu.

✓	Mae ymgeisydd yn rhan o raglen amddiffyn tystion, sy'n arwain at ei symud, neu orchymyn amddiffyn plant. (Nodwch pan fyddwch yn prosesu cais ar-lein.)
✓	Ymgeisydd sy'n cael ei addysgu mewn canolfan wahanol i'r ganolfan a wnaeth y cofrestriad gwreiddiol, e.e. trefniant consortiwm.
✓	Mae ymgeisydd yn dysgu o bell, ac wedi cofrestru â Darparwr Dysgu o Bell, sydd wedi cael ei gymeradwyo gan un neu ragor o gyrff dyfarnu'r CGC ar gyfer arholiadau cymwysterau cyffredinol. Mae'r ymgeisydd wedi cael ei gofrestru ar gyfer manyleb TAG neu TGAU gyda chydran asesiad di-arholiad. Nid yw'r Darparwr Dysgu o Bell yn gallu cynnal cydrannau arholiad ysgrifenedig y fanyleb. (Mae rhagor o wybodaeth am ddysgu o bell ar gael yn Atodiad 3 cyhoeddiad CGC <i>Cyfarwyddiadau ar gynnal asesuadau di-arholiad.</i>)
✓	Mae gan ymgeisydd gofrestradau mewn gwahanol bynciau sy'n cynnwys mwy nag un ganolfan, gan arwain at wrthdaro ar ei amserlen mewn sesiwn arholiad. (Bydd trefniant trosglwyddo ymgeisydd yn cael ei dderbyn hyd at y dyddiad cau a gyhoeddwyd ar gyfer y gyfres dan sylw. Bydd penderfyniadau am geisiadau ar-lein sy'n cael eu derbyn ar ôl y dyddiad cau sydd wedi'i gyhoeddi, yn cael eu gwneud yn ôl disgrisiwn y corff dyfarnu.)
Sylwer bod rhesymau derbyniol dros ofyn am drefniant trosglwyddo ymgeisydd yn amodol ar yr ymgeisydd yn cael ei drosglwyddo i ganolfan arholi sydd wedi'i chymeradwyo gan un neu ragor o gyrff dyfarnu CGC ar gyfer arholiadau cymwysterau cyffredinol.	

Dyma resymau annerbyniol dros wneud cais am drosglwyddo ymgeisydd:

×	Ymgeisydd yng Nghymru sy'n sefyll arholiadau islaw Blwyddyn 11, neu ymgeisydd yng Ngogledd Iwerddon sy'n sefyll arholiadau islaw Blwyddyn 12 - oherwydd bydd cyfle asesu arall ar gael i ymgeiswyr.
×	Trefniadau personol ymgeisydd fel priodas neu drefniadau gwyliau.
×	Teithiau maes ysgolion, ymweliadau cyfnewid, profiad gwaith neu flwyddyn fwllch.

Nid yw'r rhestr o resymau derbyniol ac annerbyniol yn gynhwysfawr. Mae corff dyfarnu yn cadw'r hawl i ddefnyddio ei ddisgrisiwn wrth dderbyn neu wrthod cais ar-lein am drefniant trosglwyddo ymgeisydd.

3. Cydrannau

- Mae'r trefniadau hyn yn cynnwys **cydrannau ysgrifenedig ar yr amserlen a asesir yn allanol** ar gyfer y mathau canlynol o gymwysterau:
 - AEA
 - Cymwysterau Cyffredinol Cymhwysol AQA
 - Tystysgrif Lefel 2 Mathemateg Bellach AQA
 - Tystysgrif Lefel 3 Astudiaethau Mathemategol AQA
 - Cymwysterau Cyntaf BTEC
 - Cymwysterau Cenedlaethol BTEC
 - Dyfarniadau BTEC Tech
 - Cymwysterau Cenedlaethol Caergrawnt
 - Cymwysterau Technegol Caergrawnt
 - Dyfarniadau Edexcel
 - TGAU Rhyngwladol Edexcel
 - TLM
 - FSMQ
 - TAG UG a Safon Uwch
 - TGAU
 - Tystysgrifau Lefel 3 OCR
 - Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant (Cymru)
 - Cymwysterau Cyffredinol Lefel 1 a Lefel 2 CBAC
 - Dyfarniadau Galwedigaethol Lefel 1 a Lefel 2 CBAC
 - Dyfarniadau Galwedigaethol Lefel 1 a Lefel 2 CBAC (Dyfarniadau Technegol)
 - Tystysgrifau a Diplomâu Cymhwysol Lefel 3 CBAC

- **Cydrannau di-arholiad**, h.y. mae cydrannau gwaith cwrs TAG, cydrannau asesiad di-arholiad TAG/TGAU, portffolios a chydrannau ymarferol **wedi eu heithrio** yn benodol o drefniadau trosglwyddo ymgeisydd. Mae **profion ar-gais wedi eu heithrio** rhag trefniadau trosglwyddo ymgeisydd.
- **Profion Siarad TAG UG, U2, Safon Uwch Ieithoedd Tramor Modern** – lle mae ymgeisydd wedi symud o un rhan o'r wlad i'r llall neu mae yn yr ysbyty, mae'n **rhaid** i gais ar-lein am drefniant trosglwyddo ymgeisydd gael ei gyflwyno i'r corff dyfarnu perthnasol.

Lle defnyddir canolfan letyol i ddarparu ar gyfer ymgeisydd sy'n sefyll Prawf Siarad TAG UG, U2 neu Safon Uwch ITM, mae'n **rhaid** i'r ganolfan letyol a chanolfan gofrestru'r ymgeisydd fod mewn cysylltiad. Mae'n **rhaid** i'r ganolfan letyol ymglyfarwyddo â'r cyfarwyddiadau sy'n benodol i'r pwnc cyn cynnal y Prawf Siarad.

4. Y weithdrefn gwneud cais

- Mae'n **rhaid** i ffurflen CGC/TC gael ei llenwi ar-lein gan ganolfan gofrestru'r ymgeisydd, ac yna gan y ganolfan letyol. Ar ôl i'r ganolfan letyol wneud hynny, **rhaid** iddi gyflwyno'r ffurflen ar-lein. Mae Ffurflen CGC/TC ar gael drwy'r Porth Gweinyddu Canolfannau (PAC). Gellir cyrchu'r Porth Gweinyddu Canolfannau gan ddefnyddio unrhyw un o safleoedd allrwyd diogel y cyrff dyfarnu.
- **Rhaid** cwblhau cais ar-lein ar wahân ar gyfer pob cyfres arholiadau.
- Mae'n **rhaid** i'r ganolfan letyol fod yn ganolfan sydd wedi'i chofrestru ar gyfer arholiadau cymwysterau cyffredinol gydag un neu ragor o gyrff dyfarnu'r CGC.
- Pan fydd corff dyfarnu wedi cytuno i drefniant trosglwyddo ymgeisydd, bydd yn anfon papurau cwestiynau, ynghyd ag unrhyw ddogfennau a deunyddiau ategol i'r ganolfan letyol. (**Sylwer** Mae'n bosibl y bydd fersiwn PDF o'r papur cwestiynau'n cael ei anfon at ganolfannau ar ddiwrnod yr arholiad.)
- **Mae cofrestrriad yr ymgeisydd yn parhau i fod gyda'r ganolfan gofrestru.** Bydd yr ymgeisydd yn cadw rhif y ganolfan, rhif yr ymgeisydd a'r rhif UCI/ULN a ddyrannwyd iddo eisoes. Os bydd cofrestrriad ymgeisydd yn newid, **rhaid** cysylltu â'r corff dyfarnu.

Ni ddylai swyddogion arholiadau gadarnhau trefniadau trosglwyddo ymgeisydd tan y bydd y corff dyfarnu wedi'u cymeradwyo.

5. Dyddiadau cau ar gyfer ceisiadau

Mae'n rhaid i geisiadau gael eu cyflwyno ar-lein cyn gynted â phosibl a heb fod yn hwyrach na'r dyddiadau isod ar gyfer y cyfresi arholiadau priodol:

Cyfres Arholiadau	Dyddiad
Tachwedd 2024	4 Hydref 2024
Ionawr 2025	1 Rhagfyr 2024
Mehafin 2025	21 Mawrth 2025

Ni fydd cyrff dyfarnu yn gallu gwarantu trefniadau os bydd ceisiadau'n cael eu derbyn ar ôl y dyddiadau uchod. Dylai canolfannau gysylltu â chyrff dyfarnu i gael manylion costau'r gwasanaeth hwn.

6. Cyfrifoldebau'r ganolfan gofrestru

Mae'n rhaid i'r ganolfan sydd wedi cofrestru wneud y canlynol:

- rhoi copi o unrhyw ddeunyddiau wedi'u rhyddhau ymlaen llaw a dderbyniwyd i'r ganolfan letyol, oni bai bod y corff dyfarnu yn dweud fel arall. Os yw'r corff dyfarnu wedi pennu bod yn rhaid cadw'r deunyddiau wedi'u rhyddhau ymlaen llaw o dan amodau diogel tan amser penodedig yr arholiad, mae'n **rhaid** i'r ganolfan gofrestru gysylltu â'r corff dyfarnu i ofyn am anfon deunydd o'r fath yn uniongyrchol at y ganolfan letyol;
- bod yn gyfrifol am farcio unrhyw gydrannau a asesir yn fewnol a chyflwyno marciau a asesir yn fewnol i'r corff dyfarnu;
- gwneud yn siŵr bod gwaith ymgeiswyr ar gael at bwrpasau cymedroli;
- prosesu cais ar-lein am drefniant mynediad a/neu archebu papurau wedi'u haddasu;
- rhoi cadarnhad i'r ganolfan letyol o gymeradwyaeth ar gyfer y trefniant/trefniadau mynediad priodol. Copi o'r daflen gymeradwyo fydd hwn fel arfer, a argraffwyd o *Trefniadau mynediad ar-lein*;
- sicrhau bod y ganolfan letyol yn gallu hwyluso'r trefniant/trefniadau mynediad cymeradwy;
- **rhoi gwybod i'r corff dyfarnu perthnasol am ddiwygiad i gofrestrriad ar ôl prosesu cais ar-lein am drefniant trosglwyddo ymgeisydd;**
- rhoi gwybod i'r corff dyfarnu perthnasol os nad oes angen trefniant trosglwyddo ymgeisydd cymeradwy mwyach;
- ar adeg yr arholiad(au), dylid ysgrifennu naill ai '**wedi'i drosglwyddo i' neu 'T' (rhif y ganolfan)** ar y gofrestr presenoldeb. Bydd hyn yn rhoi gwybod i'r corff dyfarnu/arholwr y bydd y sgrïpt yn cyrraedd ar wahân. **Peidiwch** ag ysgrifennu 'Absennol';
- rhoi gwybod i'r ymgeisydd y bydd yn rhaid iddo ddarparu tystiolaeth adnabod addas ar gyfer y ganolfan letyol;
- anfon ei ganlyniadau a'i dystysgrifau ymlaen at yr ymgeisydd;
- gofyn am unrhyw wasanaethau ar ôl y canlyniadau fel ardystio hwyr, Dychwelyd Sgrïptiau neu adolygiadau o farcio;
- **talw am y trefniant trosglwyddo ymgeisydd. (Y ganolfan gofrestru sy'n gyfrifol am dalu ffioedd a bydd yn cael anfoneb gan y corff dyfarnu.)**

7. Cyfrifoldebau'r ganolfan letyol

Mae'n rhaid i'r ganolfan letyol wneud y canlynol:

- glynu at gyhoeddiad y CGC *Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau cyn, yn ystod ac ar ôl yr arholiad*;
- lle mae unigolyn wedi cael ei benodi i hwyluso trefniant mynediad, h.y. darllynydd neu ysgrifennydd, gwneud yn siŵr ei fod wedi cael ei hyfforddi'n briodol ac yn deall rheolau'r trefniant mynediad;
- gwirio tystiolaeth adnabod yr ymgeisydd sydd wedi'i drosglwyddo;
- llenwi cofrestr presenoldeb ar gyfer pob arholiad, y mae'n **rhaid** iddi gael ei hanfon at y corff dyfarnu/arholwr **gyda'r sgrïpt** yn yr amlen blastig a gaiff ei darparu gan y corff dyfarnu. Os na fydd yr ymgeisydd yn mynychu, ysgrifennwch 'Absennol' ar y gofrestr presenoldeb a'i hanfon yn yr amlen a ddarparwyd. **Ni ddylid** ychwanegu ymgeisydd sydd wedi'i drosglwyddo at unrhyw un

o gofrestri presenoldeb y ganolfan letyol, ac **ni ddylai** i'r sgript gael ei rhoi gyda sgriptiau'r ganolfan letyol;

- gwneud yn siŵr bod y ganolfan gofrestru yn cyflwyno unrhyw gais am ystyriaeth arbennig i'r corff dyfarnu;
- gwneud yn siŵr os oes unrhyw achosion gwirioneddol, honedig neu a amheuir o gamymddwyn yn codi, bod y corff dyfarnu perthnasol yn cael ei hysbysu yn unol â chyhoeddiad y CGC *Amau Camymddwyn mewn Arholiadau ac Aseidiadau*.

8. Trefniadau ar gyfer dysgwyr o bell sy'n cofrestru ar gyfer manyleb TAG neu TGAU gyda chydran asesiad di-arholiad

Lle mae ymgeisydd yn dysgu o bell, wedi ymrestru gyda Darparwr Dysgu o Bell, ac wedi cael ei gofrestru ar gyfer manyleb TAG neu TGAU gyda chydran asesiad di-arholiad, a'r Darparwr Dysgu o Bell ddim yn gallu cynnal cydrannau arholiad ysgrifenedig y fanyleb, bydd y trefniadau canlynol yn berthnasol:

- Mae'n **rhaidd** i'r ganolfan letyol fod wedi'i **chymradwyo** gan un neu ragor o gyrff dyfarnu'r CGC ar gyfer arholiadau cymwysterau cyffredinol.
- Bydd y ganolfan letyol yn gyfrifol am gynnal yr arholiadau ysgrifenedig, a **rhaidd** iddi gydymffurfio â'r cyfrifoldebau fel y rhestrir uchod yn Adran 7.

9. Manylion cyswllt y gyrff dyfarnu

AQA

E-bost:

TransferredCandidateArrangements@aqa.org.uk

CCEA

E-bost:

entries@ccea.org.uk

Rhif ffôn: 028 9026 1295

OCR

E-bost:

OCR.TransferredCandidates@ocr.org.uk

Pearson

E-bost:

transferredcandidates@pearson.com

Rhif ffôn: 0344 463 2535

CBAC

E-bost:

tag@cbac.co.uk

tgau@cbac.co.uk

llwybrau@cbac.co.uk